

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg

Tachwedd 2024



1. Y cefndir

1. Cyflwynwyd y Bil Rheoleiddio Cynnyrch A Mesureg¹ (y Bil) yn Nhŷ'r Arglwyddi, a chafodd ei Ddarlleniad Cyntaf ar 4 Medi 2024. Noddir y Bil gan yr Adran Busnes a Masnach.

2. Mae teitl hir y Bil yn nodi ei ddiben, sef:

*"Make provision about the marketing or use of products in the United Kingdom; about units of measurement and the quantities in which goods are marketed in the United Kingdom; and for connected purposes."*²

3. Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil yn rhoi'r cefndir a ganlyn:

"The United Kingdom (UK)'s product safety and metrology framework is derived from European Union (EU) law and has developed over the past four decades, whilst the UK was a member of the EU. On leaving the EU, the UK set up an independent UK regime, which the Government considers needs to be able to adapt to new technologies such as Artificial Intelligence (AI), as well as to reflect the shift in both what consumers buy and how they buy it.

*The Bill intends to ensure the UK is better placed to address modern day safety issues to protect consumers, harness opportunities that deliver economic growth, and ensure a level playing field for responsible businesses operating online or on the high street. The Bill is intended to enable the UK to maintain high product standards, supporting businesses and economic growth, by allowing the UK Parliament the power to update relevant laws."*³

4. Ar yr adeg y cytunwyd ar yr adroddiad hwn, roedd y Bil yn mynd drwy'r cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi.

¹ [Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg](#), fel y'i cyflwynwyd.

² Y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg, fel y'i cyflwynwyd

³ Llywodraeth y DU, [Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg, Nodiadau Esboniadol](#), paragraffau 2 i 3

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

- 5.** Mae Rheol Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru osod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fo Bil gan Lywodraeth y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.
- 6.** Ar 20 Medi 2024, gosododd Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio (Ysgrifennydd y Cabinet), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) gerbron y Senedd mewn perthynas â'r Bil.⁴
- 7.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 22 Tachwedd 2024.⁵ Ar 5 Tachwedd 2024, cytunodd y Pwyllgor Busnes i newid y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad i 10 Ionawr 2025.⁶

Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

- 8.** Asesiad Llywodraeth Cymru, fel y nodir ym mharagraffau 7 i 29 o'r Memorandwm, yw bod angen cydsyniad ar gyfer y cymalau a ganlyn o'r Bil, a'r Atodlen i'r Bil:
- Cymal 1(1)(a) – Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol drwy reoliadau wneud darpariaeth, mewn perthynas â marchnata neu ddefnyddio cynhyrchion yn y Deyrnas Unedig, at ddiben lleihau neu liniaru risgiau a gyflwynir gan gynhyrchion
 - Cymal 1(1)(b) – Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol drwy reoliadau wneud darpariaeth, mewn perthynas â marchnata neu ddefnyddio cynhyrchion yn y Deyrnas Unedig, at ddiben sicrhau bod cynhyrchion yn gweithredu'n effeithlon neu'n effeithiol
 - Cymal 1(2) – Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol drwy reoliadau wneud darpariaeth, mewn perthynas â marchnata neu ddefnyddio cynhyrchion yn y Deyrnas Unedig, sy'n cyfateb i, neu sy'n debyg, i ddarpariaeth o gyfraith

⁴ Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol](#) – Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg, 25 Gorffennaf 2024

⁵ Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Ynni Prydain Fawr](#), 17 Medi 2024

⁶ Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Ynni Prydain Fawr](#), 5 Tachwedd 2024

berthnasol yr UE, at ddiben lleihau neu liniaru effaith amgylcheddol cynhyrchion

- Cymal 1(3) – Ni chaiff yr Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau o dan is-adran (1) neu (2) sy'n ymwneud â chynhyrchion a restrir yn yr Atodlen
- Cymal 2 – Gofynion cynnyrch
- Cymal 3 – Gorfodi rheoliadau cynnyrch
- Cymal 4 – Argyfyngau
- Cymal 7 – Rhannu Gwybodaeth
- Cymal 8 – Adennill Costau
- Cymal 9 – Diwygio Deddfau penodol yn ganlyniadol
- Cymal 10 – Dehongli
- Atodlen – Cynhyrchion Eithriedig

9. Yn y Memorandwm, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn datgan:

*“... i'r graddau y gellid defnyddio'r pwerau yn y Bil i wneud darpariaeth ym meysydd datganoledig iechyd, datblygu economaidd, diogelu'r amgylchedd ac iechyd anifeiliaid a phlanhigion, mae angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Yr unig eithriadau, felly'r darpariaethau hynny yn y Bil nad oes angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar eu cyfer, yw cymal (1)(1)(c), cymal 5, cymal 6 a chymal 9(3), yr ydym yn ei ystyried sydd â mwy na chysylltiad llac neu ganlyniadol â mater a gedwir yn ôl C8: pwysau a mesurau ac nid ydynt yn ymgysylltu ag unrhyw faterion cymhwysedd datganoledig.”*⁷

⁷ Y Memorandwm, paragraff 10

Barn Llywodraeth y DU am yr angen am gydsyniad

10. Yn y Nodiadau Esboniadol i'r Bil, mae Llywodraeth y DU yn nodi bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer y Bil, ac yn cytuno bod angen cydsyniad ar gyfer cymalau 1 i 4 (yn rhannol) a 7 i 11 (yn rhannol).⁸

11. Yn y Memorandwm, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi'r canlynol:

“Yn ei dadansoddiad datganoli, bu i Lywodraeth y DU ddatgan ymhellach y bydd mwyafrif helaeth y pwerau y mae'n rhagweld y bydd yn eu harfer o dan y Bil yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl yn unig o fewn Deddf Llywodraeth Cymru (2006).

Serch hynny, mae hefyd yn cydnabod y gall fod amgylchiadau lle y gallai arfer y pwerau yng nghymal 1(1)(a), 1(1)(b) ac 1(2) o bosibl gyffwrdd â meysydd y tu hwnt i'r materion a gedwir yn ôl eang hyn.”⁹

12. O fewn memorandwm pwerau dirprwyedig Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil, darperir y cyfiawnhad a ganlyn dros y pwerau gwneud rheoliadau yng nghymal 1:

“A delegated power is needed in order to ensure that the Secretary of State is able to respond swiftly to any new risks and hazards that might arise in this area, as well as ensuring continuity across the United Kingdom internal market. This will include an ability to maintain continuity with relevant EU law where it is deemed appropriate and, in the United Kingdom's best interests to do so, but also the ability to make different provision to the EU.”¹⁰

Goblygiadau ariannol

13. Ym mharagraff 35 o'r Memorandwm, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn darparu'r asesiad a ganlyn o ddarpariaethau'r Bil mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig:

“Mae'r Asesiad Effaith a ddarperir ochr yn ochr â'r Bil yn darparu dadansoddiad ansoddol ar gyfer y mesurau a geisir y byddai'r Bil yn eu darparu. Mae'n darparu manylion y diffygion

⁸ Nodiadau Esboniadol i'r Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg, fel y'i cyflwynwyd, Atodiad A

⁹ Y Memorandwm, paragraffau 31-32

¹⁰ Llywodraeth y DU, [Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg, Memorandwm Pwerau Dirprwyedig](#), 5 Medi 2024

yn y farchnad y byddai'r pwerau deddfu yn helpu i'w lleihau, ac yn darparu enghreifftiau o sut y gallai'r pwerau gael eu defnyddio. Byddai'r defnydd o'r pwerau galluogi yn ddarostyngedig i is-ddeddfwriaeth ac asesiadau effaith a fyddai'n meintioli'r effeithiau. Felly, ni chafodd unrhyw oblygiadau ariannol eu nodi hyd yma; fodd bynnag, bydd cyngor pellach yn cael ei gyflwyno os bydd y sefyllfa hon yn newid."

Safbwynt Llywodraeth Cymru

14. Mae Rheol Sefydlog 29.3(iii) yn darparu bod yn rhaid i femorandwm cydsyniad deddfwriaethol egluro a ystyrir ei bod yn briodol i ddarpariaeth ddatganoledig gael ei gwneud drwy Fil.

15. Yn y Memorandwm, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cydnabod nodau eang y Bil:

"Gellir ystyried datblygiad cyfundrefn diogelwch cynnyrch ledled y DU fel rhan allweddol o uchelgais ehangach i sefydlu a chynnal marchnad fewnol effeithiol yn y DU. Yn ogystal, bydd iddi fanteision ychwanegol yn nhermau iechyd a diogelwch cynhyrchion, yn enwedig o ran diogelwch tân. Mae'r Bil hwn yn darparu'r pwerau angenrheidiol i Lywodraeth y DU yn unol â'r nod ehangach hwn. Yn yr ystyr hon, mae'n synhwyrol ac yn ymarferol cefnogi ymdrechion Llywodraeth y DU i gyflawni'r nod hwn sydd o fudd amlwg i bob rhan o'r DU, gan gynnwys Cymru."¹¹

16. Fodd bynnag, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn mynd ymlaen i ddweud y canlynol:

"... mae angen ymgysylltu pellach â Llywodraeth y DU ar ehangder y pwerau gwneud rheoliadau yn 1(1)(a), 1(1)(b) ac 1(2). Ein dadansoddiad cychwynnol yw y gallai'r pwerau hyn gael eu defnyddio mewn ffordd a fyddai'n tresmasu'n sylweddol ar gymhwysedd datganoledig mewn cysylltiad â maes ehangach

¹¹ Y Memorandwm, paragraff 32

datblygu economaidd, ond hefyd maes diogelu'r amgylchedd, a meysydd eraill.”¹²

17. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn dod i'r casgliad a ganlyn ym mharagraff 36 o'r Memorandwm:

“Rydym yn gefnogol o'r Bil hwn o ran ei rôl yn hwyluso gweithrediad esmwyth marchnad fewnol y DU. Fodd bynnag, mae angen o ymgysylltu ymhellach â Llywodraeth y DU ar y pwerau galluogi yng nghymalau 1(1)(a), 1(1)(b) ac 1(2), a rôl Gweinidogion Cymru a'r Senedd yn y maes hwn. Byddaf yn darparu diweddariadau pellach i'r Senedd ynghylch safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bil hwn ar ôl ymgysylltu pellach.”

Tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet

18. Trafodwyd y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 14 Hydref 2024.¹³ Yn y cyfarfod hwnnw, gwnaethom gytuno i wahodd Ysgrifennydd y Cabinet i roi tystiolaeth lafar mewn perthynas â'r Memorandwm; cynhaliwyd sesiwn dystiolaeth wedi hynny ar 4 Tachwedd 2024.¹⁴

Safbwynt Llywodraeth Cymru

19. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym, cyn y gallai Llywodraeth Cymru argymhell cydsyniad, fod angen trafodaeth bellach â Llywodraeth y DU ynghylch rôl Gweinidogion Cymru a'r Senedd.¹⁵ Dywedodd hefyd fod trafodaethau cadarnhaol yn digwydd ar lefel weinidogol ac ar lefel swyddogol¹⁶, a bod Llywodraeth y DU yn deall y materion.¹⁷

¹² Memorandwm, paragraff 34

¹³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 26 Chwefror 2024

¹⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [10]

¹⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [10]

¹⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [73]

20. Ymrwymodd Ysgrifennydd y Cabinet i roi rhagor o wybodaeth inni am safbwynt Llywodraeth Cymru o ran y Bil cyn gynted ag y gallai Llywodraeth Cymru wneud hynny.¹⁸

Ymgysylltu â Llywodraeth y DU

21. Ymhelaethodd Ysgrifennydd y Cabinet ar ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r Bil, gan ddweud y canlynol:

"... these are the discussions that we're having currently with the UK Government around what the role of Welsh Ministers and the Senedd would be ... Obviously, our position would be to look for [a] consent [mechanism], so that really gets to the heart of the discussions that we're having with the UK Government and the consideration that we will have to give in terms of whether or not to recommend that the Senedd gives its consent following that. But, of course, there'll be discussions to be had, then, in relation to the specific regulations that will flow from the Bill as well."¹⁹

22. Hefyd, darparodd Ysgrifennydd y Cabinet fanylion pellach am yr ymgysylltu hwn:

"I met with Lord Leong on 2 October, and, again, we had a really good discussion there. That was very much focused around the role, again, of the Welsh Ministers and of the Senedd ... I was able to set out the Welsh Government's principles in this space, how important it is that it is the Senedd that has the chance to have its say and make decisions here for Wales for the things that we have responsibility for. Those discussions were good as well, and we agreed that our officials would work together to try and resolve some of the concerns that we have."²⁰

¹⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [75]

¹⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [16]

²⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [45]

23. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y Bil yn cael ei ddatblygu cyn etholiad Llywodraeth newydd y DU²¹, ac, yn hyn o beth, dywedodd swyddog a oedd gydag Ysgrifennydd y Cabinet fel a ganlyn:

“... it's important to say as well that we're working with officials who now have the authority to engage with us in a thoroughly ... we go through the detail. Before this point, we didn't have the detail, and in fact a lot of the time we are re-educating about devolution, the Senedd. We have to do that. It takes time.”²²

Natur fframwaith y Bil

24. Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym pam ei bod yn deall bod y Bil o natur fframwaith:

“... with this particular Bill, the regulations that relate to product safety and metrology span to some 2,500 pages, and, as I understand it, they are frequently updated to keep pace with changes, and that's part of the reason why this is a framework Bill, because things change frequently. Lots of them are technical changes in terms of weights and measures and so on, so I think that that perhaps sets that part of the Bill apart from others.”²³

Pwerau dirprwyedig yn y Bil

25. Ar sawl achlysur, cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet at y Bil gan gynnwys dyletswydd i ymgynghori.²⁴ Fodd bynnag, nid oes dyletswydd o'r fath wedi'i chynnwys yn y Bil.

26. Yng nghyd-destun y sylwadau hyn ynghylch y rhwymedigaeth i ymgynghori, mynegodd Ysgrifennydd y Cabinet farn i'w gwneud yn ofynnol i gynnwys gofyniad i geisio cydsyniad yn y Bil yn lle.²⁵ Dywedodd mai'r mater hwn oedd hanfod y

²¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [13]

²² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [63]

²³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [22]

²⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [16, 45, 47 i 48, 73]

²⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [16]

trafodaethau gyda Llywodraeth y DU²⁶, ac y byddai cynnwys gofyniad i geisio cydsyniad yn un o'r ffyrdd mwyaf syml o fynd i'r afael â rhai o'r pryderon a godwyd gan Lywodraeth Cymru.²⁷

27. Fodd bynnag, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd fod ffyrdd eraill, o bosibl, y gallai Llywodraeth Cymru edrych arnynt i wneud newidiadau.²⁸ Rhoddodd swyddog a oedd gydag Ysgrifennydd y Cabinet enghreifftiau o atebion deddfwriaethol o'r fath:

*"... the Environment Act 2021, a Bill that the Senedd did support, would be one example. The coronavirus rent restriction Bill and other sorts of situations that we've looked at, as the Cabinet Secretary has alluded to, also provide more of a legislative scrutiny role for the Senedd rather than just that pure consent role for Welsh Ministers ..."*²⁹

Rhyngweithio â Deddf Marchnad Fewnol y DU

28. Gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet esbonio pa asesiad yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o ryngweithiad y Bil â *Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020* (Deddf Marchnad Fewnol y DU). Mewn ymateb, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y canlynol wrthym:

"What the Bill will do is allow the law to be updated to recognise new or updated EU product requirements. And the intention then is to prevent unnecessary costs and inconvenience to businesses, providing that regulatory stability. So, clearly, that's in the interest of UK businesses and Welsh businesses. But, as I mentioned earlier, there are around 2,500 pages of legislation spanning areas that routinely need that kind of technical updating. So, that will allow us, really, to ensure that we are aligned with EU standards, ensuring that businesses are able to access the EU market and prevent passive divergence, because that was something that we were concerned about very much in the Senedd during that period"

²⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [47]

²⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [73]

²⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [73]

²⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [60]

*when we were talking about Brexit and how Brexit would look. So, this aims to prevent that.*³⁰

Perthynas â'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu

29. Gwnaethom hefyd ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet esbonio'r berthynas rhwng y Bil a Chytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU-UE (y Cytundeb Masnach a Chydweithredu). Wrth ymateb, dywedodd y Cabinet y canlynol wrthym:

*"... the Bill is a framework Bill, which is why the TCA isn't impacted in that sense, but it might be in terms of the regulations that come underneath it."*³¹

Goblygiadau ariannol

30. Yn olaf, gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet nodi pa asesiadau effaith rheoleiddiol ac ariannol yr oedd Lywodraeth Cymru wedi'u cynnal mewn perthynas â darpariaethau'r Bil o ran Cymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig. Ni chyfeiriodd ymateb Ysgrifennydd y Cabinet at unrhyw asesiadau a gynhaliwyd eto gan Lywodraeth Cymru, ond yn hytrach:

*"... the UK Government's impact assessment does provide a qualitative analysis for the measures that are sought, and it does provide details, then, of the kinds of market failures that the Bill is trying to help reduce and gives some examples of how the powers could be used. But, of course, those powers would be subject to the secondary legislation, and, again, that's the kind of space where we would expect to see the impact assessments in more detail in relation to the pieces of secondary legislation that might come forward."*³²

³⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [81]

³¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [14]

³² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [27]

2. Ystyriaeth y Pwyllgor

31. Gwnaethom gytuno ar ein hadroddiad ar y Memorandwm ar 25 Tachwedd 2024.

Ein barn ni

Darpariaethau y mae angen cydsyniad arnynt

32. Rydym yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru o'r darpariaethau yn y Bil sy'n gofyn am gydsyniad y Senedd, i'r graddau y gellid defnyddio ei phwerau i wneud darpariaeth mewn meysydd datganoledig megis iechyd, datblygu economaidd, diogelu'r amgylchedd, pecynnu bwyd ac anifeiliaid.

Casgliad 1. Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, fel y nodir yn y Memorandwm, yn unol â Rheol Sefydlog 29.

33. Rydym hefyd yn nodi bod Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen cydsyniad ar gyfer cymalau 1 i 4 (yn rhannol) a 7 i 11 (yn rhannol) o'r Bil.

34. Rydym yn nodi ymhellach, ac yn dwyn i sylw'r Senedd, nad yw'r Memorandwm yn dweud dim ynghylch y cwestiwn a ddylai'r Senedd roi cydsyniad i'r Bil.

35. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am safbwynt Llywodraeth Cymru ar ôl ymgysylltu ymhellach â Llywodraeth y DU. Fel y nodir isod, rydym yn codi nifer o bryderon am y pwerau yn y Bil. Gyda'r rhain mewn golwg, credwn ei bod yn hollbwysig bod Ysgrifennydd y Cabinet yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd i'r Senedd ynghylch sefyllfa Llywodraeth Cymru sy'n datblygu mewn perthynas â'r Bil.

Argymhelliad 1. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet barhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd i'r Pwyllgor a'r Senedd ar ei safbwynt mewn perthynas â'r Bil, i'w galluogi i lunio barn ynghylch a ddylai roi ei chydsyniad ai peidio.

Ymgysylltu â Llywodraeth y DU

36. Rydym yn nodi sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet ynglŷn â'r ffaith bod lefel dda o ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r Bil.

37. Rydym hefyd yn nodi, yn ôl Ysgrifennydd y Cabinet, bod trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn canolbwyntio ar geisio rôl i Weinidogion Cymru a'r Senedd pan fydd y pwerau dirprwyedig yn y Bil yn cael eu harfer mewn meysydd datganoledig. Rydym yn rhoi sylw i'r mater hwn yn ddiweddarach yn ein hadroddiad.

38. Fodd bynnag, mae'n siomedig ac yn destun pryder clywed am ddiffyg dealltwriaeth o ddatganoli ymhlith rhai swyddogion yn Llywodraeth y DU – yn enwedig ar ôl 25 mlynedd o fodolaeth y Senedd.

39. Felly, rydym yn ailadrodd ein barn, fel y'i mynegwyd i Bwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin,³³ er efallai y bu gwelliannau mewn adrannau unigol o'r Llywodraeth, gyda'n gilydd, ar y cyd nid ydym yn credu bod digon o gynnydd wedi'i wneud yn gyffredinol i wella'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o ddatganoli ar draws Whitehall. Rydym yn credu bod hyn yn bwysig oherwydd yr effaith andwyol y gall ei chael ar gyfraith a wneir mewn meysydd datganoledig gan Senedd y DU a Llywodraeth y DU, yn ogystal â chreu cysylltiadau rhynglywodraethol aneffeithlon.

Natur fframwaith y Bil

40. Rydym wedi mynegi ein pryder o'r blaen ynghylch defnydd cynyddol o ddeddfwriaeth fframwaith yng nghyd-destun Biliau a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru. Yn ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2022/23, gwnaethom ddatgan bod Biliau fframwaith, yn ôl eu natur, yn cymryd pŵer oddi ar y ddeddfwrfa ac yn ei roi i'r weithrediaeth, gan adael y manylion polisi i'w cynnwys mewn rheoliadau nad ydynt yn ddarostyngedig i lefel yr ystyriaeth ac ymgysylltiad llinell wrth linell a fyddai'n digwydd o dan y broses graffu ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol.³⁴ Gwnaethom dynnu sylw hefyd at ein pryderon am Filiau fframwaith yn ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2023/24.³⁵

41. Felly, rydym yn pryderu o weld natur fframwaith helaeth y Bil hwn, fel yr amlygwyd gan Bwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi. Rydym yn nodi bod y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio

³³ Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin, Ymchwiliad: Gallu datganoli yn Whitehall, [DCW0020: Tystiolaeth ysgrifenedig gan y Pwyllgor Deddfwriaeth Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad](#), 17 Hydref 2023

³⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [Adroddiad Blynyddol 2022/23](#), paragraff 84

³⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [Adroddiad Blynyddol 2023/24](#), Tachwedd 2024, paragraffau 97 i 101

Rheoleiddio wedi galw am ddileu'r pwerau dirprwyedig yng nghymalau 1, 2, 3 a 9 o'r Bil, ac wedi datgan bod y cymalau hynny:

*"... are an example of what the Committee refers to as "skeleton legislation". They contain almost no substance about the marketing and use of products but instead give Ministers very broad powers which confer considerable discretion to legislate in that area by statutory instrument. Almost all of the substance of the regulatory regime that is to govern the marketing and use of products (including product safety) is to be left to regulations. Even existing provision in primary legislation may be replaced by provision in regulations."*³⁶

42. Rydym yn nodi ymhellach, ar ôl iddo ofyn am gyfiawnhad pellach mewn tystiolaeth lafar gan Lywodraeth y DU ynglŷn â natur fframwaith y Bil³⁷, na chafodd pryderon y Pwyllgor eu lleddfu. Dywedodd mewn adroddiad dilynol:

"In our view, the delegation to Ministers of law-making powers in this Bill involves legislative power shifting to an unacceptable extent from the democratically appointed legislature to the Executive.

*We remain of the view expressed in our Report of 15 October that the Government have failed to provide a convincing justification for the inclusion of skeleton clauses in this Bill that give Ministers such wide powers to re-write in regulations the substance of the regulatory regimes for products and metrology."*³⁸

43. Mae Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar y Cyfansoddiad (Pwyllgor y Cyfansoddiad) wedi mynegi pryderon tebyg i'r rhai a godwyd gan y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio mewn perthynas â'r Bil.³⁹

44. Rydym yn rhannu'r pryderon hyn, ac nid ydym wedi'n hargyhoeddi gan esboniad Ysgrifennydd y Cabinet dros pam – fel y mae hi'n ei ddeall – fod natur

³⁶ Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi, [2il Adroddiad Sesiwn 2024-25](#), 15 Hydref 2024, paragraff 18

³⁷ Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi, [16 Hydref 2024 - Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg - Tystiolaeth lafar](#)

³⁸ Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi, [4ydd Adroddiad Sesiwn 2024-25](#), 28 Hydref 2024, paragraffau 6-7

³⁹ Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar y Cyfansoddiad, [2il Adroddiad Sesiwn 2024-25](#), 18 Hydref 2024, paragraffau 5-7

fframwaith y Bil mor helaeth. Rydym yn cydnabod bod y gyfraith yn y maes hwn i'w chanfod yn bennaf mewn is-ddeddfwriaeth ar hyn o bryd, ac efallai y bydd amgylchiadau pan fydd angen newid y ddeddfwriaeth honno'n aml. Fodd bynnag, fel y nodwyd gan y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio, nid yw'n glir pam ei bod yn angenrheidiol i bron holl sylwedd y gyfraith hon gael ei gynnwys mewn deddfwriaeth ddirprwyedig a wneir gan Weinidogion Llywodraeth y DU, gan adael rôl graffu gyfyngedig iawn ar gyfer deddfwrfeydd.

Casgliad 2. Rydym yn ystyried y Bil fel Bil fframwaith, sy'n cymryd pŵer oddi wrth y ddeddfwrfa ac yn ei roi i'r weithrediaeth. O'r herwydd, rydym yn cefnogi galwadau Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi i gael gwared ar y pwerau dirprwyedig eang sydd yn y Bil.

45. Os caiff y Bil ei ddeddfu, credwn y byddai gan y Senedd – pe bai'n penderfynu gwneud hynny – y pwerau angenrheidiol i ddiwygio'r Bil i'r graddau y mae'n gymwys i feysydd datganoledig. Rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ddatgan a yw'n rhannu ein barn ai peidio, ac a allai cyflwyno Bil i ddiwygio darpariaethau o'r fath fod yn ffordd – pan fetho popeth arall – o ddatrys ei phryderon mewn perthynas â'r Bil.

Argymhelliad 2. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddatgan:

- a yw Llywodraeth Cymru'n credu y gellid defnyddio Bil a gyflwynir yn y Senedd i ddiwygio'r Bil – os caiff ei ddeddfu – i'r graddau y mae'n berthnasol i feysydd datganoledig; ac
- a yw Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai dilyn dull o'r fath yn ymarferol, pe bai angen, i ddatrys ei phryderon mewn perthynas â'r Bil.

Pwerau dirprwyedig yn y Bil

46. Rydym yn nodi, yn ogystal â'i bryderon fel y cyfeirir atynt uchod, bod y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio hefyd yn poeni'n fawr iawn nad yw cwmpas y pwerau yn y Bil yn cael ei gyfyngu gan unrhyw ofynion o ran ymgynghori, meini prawf i'w bodloni, neu rag-amodau ystyrlon i'w bodloni.⁴⁰

47. Rydym hefyd yn nodi bod Pwyllgor y Cyfansoddiad wedi dod i'r casgliad a ganlyn mewn perthynas â'r pwerau yn y Bil:

⁴⁰ Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi, 4ydd Adroddiad Sesiwn 2024-25, 28 Hydref 2024, paragraff 5

“... when exercising delegated powers in areas of devolved competence, formal engagement with the devolved administrations on the use of such powers should take place. The House [of Lords] may wish to seek clarification from the Government as to the processes of consultation and consent it intends to apply in relation to the Bill's delegated powers in the event that they are used to make regulations in areas of devolved competence; in particular, where these powers are used to alter acts of the devolved legislatures.”⁴¹

48. Rydym yn nodi ymhellach, o ran absenoldeb mecanwaith i ymgynghori neu i ofyn am gydsyniad o fewn y Bil, ar 29 Hydref 2024 y cyhoeddodd Llywodraeth y DU yr ymateb a ganlyn i'r Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio:

“Whilst there is no statutory consultation provision set out in the Bill because the appropriate level of engagement will depend on the circumstances, the Department is committed to continue its practice to consistently consult and engage with stakeholders on legislative changes, including in cases of emergency. ...

Products legislation is also subject to World Trade Organization notification requirements, meaning draft legislation is frequently published for comment at least 60 days before the legislation can proceed to become law. There are also other overarching existing duties that must be taken into account when making secondary legislation, such as having special regard to Northern Ireland's place in the UK internal market and customs territory under section 46 of the United Kingdom Internal Market 2020, the Environmental Principles Duty as set out in the Environment Act 2021, and the Public Sector Equality Duty from section 149 of the Equality Act 2010.

The Department shares the Committee's commitment to transparency, as well as ensuring that the right expertise is heard and considered before regulation is made, and,

⁴¹ Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar y Cyfansoddiad, 2il Adroddiad Sesiwn 2024-25, 18 Hydref 2024, tudalennau 3-4

*notwithstanding these processes which routinely take place,
will endeavour to meet the Committee's points.*"⁴²

49. Rydym yn cydnabod datganiad Ysgrifennydd y Cabinet – a fynegwyd i ni ar 4 Tachwedd – bod trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn canolbwyntio ar geisio rôl i Weinidogion Cymru a'r Senedd pan fydd y pwerau dirprwyedig yn y Bil yn cael eu harfer mewn meysydd datganoledig.

50. Fodd bynnag, mae'n destun pryder i ni ei bod yn ymddangos bod ymateb Llywodraeth y DU i'r Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio – fel y'i cyhoeddwyd dim ond wythnos cyn tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet – yn nodi nad yw'r Bil yn darparu ar gyfer ymgynghoriad statudol oherwydd bydd y lefel briodol o ymgysylltu yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Mae'n destun pryder pellach nad yw ymateb Llywodraeth y DU yn cyfeirio o gwbl at rôl llywodraethau neu ddeddfwrfeydd datganoledig.

51. Os bydd natur eang y pwerau yn y Bil yn parhau i fodoli ar eu ffurf bresennol, credwn ei bod yn hanfodol bod rôl i'r Senedd – neu o leiaf i Weinidogion Cymru – pan fydd y pwerau hynny'n cael eu harfer mewn meysydd datganoledig. Yn hyn o beth, rydym yn nodi barn Ysgrifennydd y Cabinet y byddai cynnwys gofyniad yn y Bil i geisio cydsyniad Gweinidogion Cymru yn "un o'r ffyrdd mwyaf syml" o fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan Lywodraeth Cymru.

52. Fodd bynnag, rydym yn credu os na chaiff unrhyw gyfyngiadau ychwanegol ar y pwerau hyn eu cynnwys ar wyneb y Bil, y dylai fod rôl i'r Senedd os cânt eu harfer mewn meysydd datganoledig. Er mwyn galluogi'r rôl hon, credwn y dylai Gweinidogion Cymru gael yr un pwerau â'r rhai sydd gan Weinidogion Llywodraeth y DU, gyda'r lefel briodol o graffu gan y Senedd, pan ystyrir bod angen eu harfer mewn meysydd datganoledig. Dim ond drwy'r dull hwn y bydd y Senedd yn gallu – er mewn ffordd gyfyngedig – graffu ar unrhyw is-ddeddfwriaeth mewn meysydd datganoledig sy'n deillio o'r Bil.

Argymhelliad 3. Dylid diwygio'r Bil i alluogi Gweinidogion Cymru i arfer y pwerau dirprwyedig sydd wedi'u cynnwys yn y Bil mewn meysydd datganoledig.

53. Rydym yn credu mai dim ond ar ôl i Lywodraeth Cymru fethu â sicrhau'r ymrwymiad hwn gan Lywodraeth y DU y dylai fynd ar drywydd cynnwys mecanweithiau eraill yn y Bil, megis gofyniad i geisio cydsyniad Gweinidogion Cymru pan fydd y pwerau yn y Bil yn cael eu harfer mewn meysydd datganoledig.

⁴² Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi, 6ed Adroddiad Sesiwn 2024-25, 30 Hydref 2024, paragraff 5

54. Rydym yn nodi bod Ysgrifennydd y Cabinet wedi dweud wrthym fod ffyrdd eraill, o bosibl, y gallai Llywodraeth Cymru edrych arnynt i wneud newidiadau i'r Bil. Credwn y dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi eglurder i'r Senedd ynghylch yr opsiynau sy'n cael eu hystyried.

Argymhelliad 4. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi'r gwahanol ffyrdd y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau bod y Bil yn cael ei ddiwygio er mwyn gwneud yn siŵr bod rôl i Weinidogion Cymru a'r Senedd.

Hyblygrwydd i gysoni neu ymwahanu â chyfraith yr UE

55. Rydym yn nodi bod y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio hefyd wedi codi pryderon ynghylch yr hyblygrwydd mwyaf y bydd y pwerau yn y Bil yn ei roi i Weinidogion Llywodraeth y DU gan eu galluogi i benderfynu a ydynt am gysoni neu ymwahanu â chyfraith yr UE, gan nodi fel a ganlyn:

“Ministers could, should they so wish, use these powers as a mechanism for ensuring that UK domestic law on product regulation is completely aligned with EU law. Alternatively, they could use the powers to provide for UK domestic law to diverge in significant respects from EU law. Whatever direction Ministers may choose to take the law in—and however significant in policy terms that may be—it is to be done by means of delegated legislation that will be subject only to a relatively low level of parliamentary scrutiny.”⁴³

56. Rydym hefyd yn nodi bod Pwyllgor y Cyfansoddiad wedi mynegi amheuan tebyg, gan nodi'r canlynol:

“We are concerned by the Government’s justification for these broad powers. In light of the UK’s withdrawal from the EU, it is now possible for Parliament to assess and influence policy development in a range of areas that were once governed by secondary legislation implementing EU law. Where potentially significant changes are to be made to law, whether assimilated former EU law or otherwise, this should be done by primary

⁴³ Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi, 2il Adroddiad Sesiwn 2024-25, 15 Hydref 2024, paragraff 32

legislation, giving Parliament the opportunity to undertake detailed scrutiny.”⁴⁴

57. Yn ystod ein hystyriaeth o femoranda cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) (Deddf 2023 bellach), gwnaethom fynegi ein pryderon ynghylch cwmpas eang y pwerau sydd yn y Bil hwnnw i gadw, diwygio neu ddirymu cyfraith yr UE a ddargedwir (sy'n gyfraith gymathedig erbyn hyn).⁴⁵ Ers deddfu'r Bil, rydym wedi parhau i graffu'n fanwl ar y defnydd o'i bwerau.⁴⁶

58. Yng ngoleuni'r pryderon a godwyd gan bwyllgorau, rydym felly'n ailadrodd ein barn y dylid cyfyngu ar y pwerau yn y Bil, er mwyn galluogi rôl i'r ddeddfwrfa gynnal gwaith craffu manwl ar newidiadau a allai fod yn arwyddocaol i ddeddfwriaeth. Os na wneir newidiadau o'r fath i'r Bil, dylai'r Bil yn lle hynny gynnwys rôl i'r Senedd a Gweinidogion Cymru pan fydd ei bwerau'n cael eu harfer mewn meysydd datganoledig. Dim ond drwy'r dull hwn y bydd cyfle i'r Senedd a'i phwyllgorau fonitro unrhyw benderfyniadau i gysoni'r gyfraith mewn meysydd datganoledig â chyfraith yr UE, neu wyro fel arall oddi wrth gyfraith yr UE.

Rhyngweithiad y Bil â Deddf Marchnad Fewnol y DU a fframweithiau cyffredin

59. Rydym yn nodi nad yw'r Bil yn cyfeirio at Ddeddf Marchnad Fewnol y DU. Mae'r Athro Thomas Horsley o Brifysgol Lerpwl⁴⁷ a Phwyllgor y Cyfansoddiad ill dau wedi tynnu sylw at y ffaith nad yw'r Bil yn cyfeirio at y Ddeddf, gan ddweud y canlynol:

“The United Kingdom Internal Market Act 2020 introduced the Market Access Principles to regulate, among other things, trade across the UK in goods and services. These Principles include ‘mutual recognition’ and ‘non-discrimination’ in relation to goods. They are designed to ensure alignment across the UK. We note that the Bill makes no reference to the UK Internal

⁴⁴ Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar y Cyfansoddiad, 2il Adroddiad Sesiwn 2024-25, 18 Hydref 2024, paragraff 11

⁴⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir \(Dirymu a Diwygio\)](#), Chwefror 2023, paragraffau 223-239

⁴⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad Blynyddol 2023/24, Tachwedd 2023, paragraffau 59-60

⁴⁷ UK Constitutional Law Association, [Thomas Horsley: Relations Reset or Regression? Devolution and the Product Regulation and Metrology Bill](#), 17 Medi 2024

Market Act, despite the potential for regulations made under the Bill to encompass the use and marketing of products.”⁴⁸

60. Nid yw’n glir i ni pam nad yw’r Bil yn cyfeirio at Ddeddf Marchnad Fewnol y DU ac o’r dystiolaeth a ddarparwyd i ni gan Ysgrifennydd y Cabinet, mae’n parhau i fod yn aneglur i ni i ba raddau y bydd darpariaethau’r Bil yn rhyngweithio â’r Ddeddf.

61. Fodd bynnag, nodwn fod Swyddfa’r Farchnad Fewnol wedi rhoi gwybod i ni am ei barn, ar hyn o bryd, ynghylch graddau’r rhyngweithio hwn:

“... there is no interaction between the Bill itself and the UK Internal Market (UKIM) Act 2020 Market Access Principles (MAPs) as the Bill itself is designed to achieve regulatory alignment across the UK in certain policy areas. Consequently, if powers are exercised under the legislation, there would be no regulatory difference in these areas such that a business or other market participant could ‘use’ the MAPs to trade across the nations of the UK.”⁴⁹

62. Er gwaethaf barn Swyddfa’r Farchnad Fewnol, rydm o’r farn bod y mater o ryngweithiad y Bil â Deddf Marchnad Fewnol y DU yn arbennig o bwysig, a bod angen eglurhad pellach. Er ein bod yn nodi bod Pwyllgor y Cyfansoddiad wedi argymhell bod Tŷ’r Arglwyddi yn ceisio eglurder o’r fath gan Lywodraeth y DU⁵⁰, credwn y dylai Llywodraeth Cymru yn yr un modd roi eglurder i’r Senedd o ran ei hasesiad ei hun o ryngweithiad y Bil â Deddf Marchnad Fewnol y DU.

Argymhelliad 5. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi asesiad Llywodraeth Cymru o ryngweithiad y Bil â *Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020*, ac ymrwymo i ddarparu asesiad o’r fath mewn unrhyw femoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol a osodir mewn perthynas â’r Bil.

63. Rydym yn nodi bod Pwyllgor y Cyfansoddiad wedi gwneud sylwadau tebyg mewn perthynas â rhyngweithiad y Bil â fframweithiau polisi cyffredin y DU (fframweithiau cyffredin), fel a ganlyn:

⁴⁸ Pwyllgor Dethol Tŷ’r Arglwyddi ar y Cyfansoddiad, 2il Adroddiad Sesiwn 2024-25, 18 Hydref 2024, paragraff 35

⁴⁹ [Llythyr gan Swyddfa’r Farchnad Fewnol, 13 Tachwedd 2024 \[Saesneg yn unig\]](#)

⁵⁰ Pwyllgor Dethol Tŷ’r Arglwyddi ar y Cyfansoddiad, 2il Adroddiad Sesiwn 2024-25, 18 Hydref 2024, paragraff 37

“... the regulation-making powers under the Bill are so broadly framed that they might permit the Government to circumvent the restrictions imposed by both the UK Internal Market Act and common frameworks, allowing it to act unilaterally in areas where significant steps have already been taken to ensure consensual decision-making and common standard-setting.”⁵¹

64. Ym mis Mehefin 2023 dywedodd Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ar y pryd wrthym fod gan fframweithiau cyffredin “y potensial i fod yn fecanweithiau llywodraethu parhaus, hyblyg a chynyddol arwyddocaol ar gyfer y meysydd polisi a lywodraethwyd yn flaenorol gan gyfraith yr UE.”⁵² Mae'n peri pryder, felly, y gallai darpariaethau'r Bil gael effaith negyddol ar weithrediad effeithiol fframweithiau cyffredin. Felly, credwn y dylai Llywodraeth Cymru hefyd roi eglurder i'r Senedd ar effaith bosibl y Bil yn y maes hwn.

Argymhelliad 6. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi asesiad Llywodraeth Cymru o ryngweithiad y Bil â fframweithiau polisi cyffredin y DU, ac ymrwymo i ddarparu asesiad o'r fath mewn unrhyw femoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol a osodir mewn perthynas â'r Bil.

⁵¹ Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar y Cyfansoddiad, 2il Adroddiad Sesiwn 2024-25, 18 Hydref 2024, paragraff 36

⁵² [Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 22 Mehefin 2023](#)